Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Rheoliadau Etholiad UMPC

*Sylwer: Mae ymgeiswyr wedi'u ymrhwymo'n swyddogol gan y rheoliadau yma o'r funud y bydd yr hysbysiad o bleidlais sy'n cadarnhau ymgeiswyr yn fyw ar wefan Undeb y Myfyrwyr, mae hyn yn dilyn y briff ymgeisydd cyntaf. Pan fydd y rheoliadau'n cyfeirio at 'ymgeiswyr' mae hefyd yn cyfeirio at ymgyrchwyr/timau ymgyrchu.*

## Enwebiadau

Rhaid cyflwyno enwebiadau gan ddefnyddio porth etholiadau gwefan cardiffstudents.com cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau a gadarnhawyd yn yr Hysbysiad o Etholiadau. Rhaid i unrhyw fyfyrwyr sy'n cael problemau gyda'r broses enwebu roi gwybod am hyn cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau drwy anfon e-bost at y tîm etholiadau yn elections@caerdydd.ac.uk. Ni ellir derbyn unrhyw enwebiadau ar ôl y dyddiad cau lle nad oes unrhyw broblem wedi'i adrodd ymlaen llaw.

### Enw ar y Bleidlais a Hysbysiad o Etholiad

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu enw i ymddangos ar y bleidlais a'r hysbysiad o etholiad wrth gyflwyno eu henwebiad. Dylai'r enw hwn fod naill ai eu henw cofrestredig ar gronfa ddata'r Brifysgol neu'n enw y maent yn eu defnyddio'n gyffredin neu y cyfeirir atynt fel arfer. Mae hyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r ymgeiswyr y maent yn pleidleisio drostynt ac y gellir eu hethol yn gynrychiolwyr.

Ni dderbynnir enwau nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn a/neu sy'n cynnwys ymadroddion, enwau, neu eiriau sy'n cael eu cysylltu'n fwy cyffredin ag ymadroddion neu frandiau. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cyflwyno enwebiad o fewn y canllawiau a ddarparwyd, ac mae yna berygl na chaiff eu henwebiad ei dderbyn os na fyddant yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm etholiadol. Y dyddiad cau ar gyfer darparu enw priodol i ymddangos ar y bleidlais a hysbysiad o etholiad yw'r un amser a dyddiad â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

### Llun

Mae gan ymgeiswyr yr opsiwn i ddarparu llun i ymddangos ar y bleidlais ar-lein ochr yn ochr â'u henwebiadau. Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddarparu llun, ond rhaid i unrhyw lun a ddarperir ddilyn y canllawiau.

Dylai'r llun fod yn ddarlun cywir o'r ymgeisydd a chynnwys wyneb yr ymgeisydd. Ni ddylai unrhyw bobl eraill ymddangos o fewn ffocws y llun. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cyflwyno enwebiad o fewn y canllawiau a ddarparwyd, ac mae perygl na chaiff eu henwebiad ei dderbyn os

na fyddant yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm etholiadol.

**Maniffesto**

Mae gan ymgeiswyr yr opsiwn i gyflwyno dau faniffesto yn ystod cyfnod yr etholiad. Y maniffesto cyntaf yw'r maniffesto testun plaen a gyflwynir gan ddefnyddio'r porth etholiad ar-lein. Mae gan y maniffesto hwn derfyn o 250 gair. Maniffesto ar ffurf poster yw'r ail faniffesto y byddai ymgeiswyr yn ei gyflwyno drwy e-bost i'r tîm etholiadau yn elections@caerdydd.ac.uk.

Mae'r maniffesto testun plaen i'w gyflwyno cyn y maniffesto poster a chaiff ei gyfieithu gan dîm cyfieithu'r Undeb. Bydd y cyfieithiad yn cael ei lanlwytho i'r porth etholiad ar gyfer ymgeiswyr a'i ddychwelyd atynt trwy e-bost i'w cynorthwyo i greu eu maniffesto poster.

Yna dylid dychwelyd y maniffestos poster gan ddarparu fersiwn Gymraeg a Saesneg i'r Undeb. Gall methu â chyflwyno fersiwn Gymraeg a Saesneg olygu na fydd y maniffestos poster yn cael eu derbyn. Mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyniadau maniffesto a therfynau amser allweddol eraill isod:

| | **Dyddiad cau** | **Y Broses Gyflwyno** |
|---|---|---|
| **Cyflwyno Enwebiad** | Dydd Llun 6ed Chwefror, 4yh | I'w gyflwyno trwy'r porth etholiadau ar-lein. |
| **Cyflwyno Llun** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh | I'w gyflwyno trwy'r porth etholiadau ar-lein neu ei e-bostio i elections@caerdydd.ac.uk. |
| **Maniffesto Testun Plaen** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh | I'w gyflwyno trwy'r porth etholiadau ar-lein. Mae angen cyflwyno yn Gymraeg neu yn Saesneg. |
| **Maniffesto Fideo (30 Eiliad)**<br>*Gall ymgeiswyr ar gyfer rolau Swyddogion Sabothol gyflwyno maniffesto fideo i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol yr Undeb. Ni ddylai'r fideo hwn fod yn hwy na 30 eiliad a dylai gael ei ffilmio mewn un fersiwn barhaus.* | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh | I'w gyflwyno trwy e-bost i elections@caerdydd.ac.uk. Dylid darparu cyflwyniad naill ai mewn fformat .MOV neu MP4 a'i ffilmio fel portread. |
| **Geiriau Ychwanegol i'w Cyfieithu**<br>*Ochr yn ochr â'u maniffesto testun plaen gall ymgeiswyr gyflwyno hyd at 100 o eiriau ychwanegol i gael eu cyfieithu i'w defnyddio yn eu maniffesto poster.* | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh | Dylid cyflwyno geiriau ychwanegol i'w cyfieithu trwy e-bost i elections@caerdydd.ac.uk |
| Bydd cyfieithiadau a gyflwynir cyn y dyddiad cau yn cael eu dychwelyd erbyn dydd Llun 20fed Chwefror am 4yh. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Maniffesto Poster** | Dydd Gwener 24ain Chwefror, 4yh | I’w gyflwyno trwy e-bost i elections@caerdydd.ac.uk. Mae angen cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

## Ymgyrchu ac Ymddygiad

Mae etholiadau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu llywodraethu gan 4 egwyddor craidd sy’n rheoleiddio ymgyrchu ac ymddygiad ymgeisydd drwy'r holl etholiadau. Rydym am i chi fel ymgeiswyr fod yn rhydd i ymgyrchu mewn modd creadigol a chlyfar heb boeni am orfod cofio rhestr hir o reolau. Yn hytrach, dylai’r 4 egwyddor lywio penderfyniadau’r ymgeiswyr am eu hymgyrch.

Wedi dweud hynny, os yw ymgeiswyr yn gweithredu'n groes i ysbryd yr egwyddorion, maent yn destun i gosbau’r pwyllgor etholiadau. Gall y rhain amrywio o gyfyngu ar wahanol fathau o gyhoeddusrwydd neu mewn achosion eithafol, cael eu gwahardd o’r etholiad.

## Yr Egwyddorion

1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i fwrw eu pleidlais heb ddylanwad neu bwysau gormodol.
2) Rhaid i ymgeiswyr ufuddhau polisïau cyfraith, undeb a phrifysgol.
3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain ac felly, dylent osgoi ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill.
4) Rhaid i eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir ar gyfer eich ymgyrch fod o fewn y lwfans a roddir yn unol â rheoliadau ariannol etholiad yr undeb.

## Sut mae'n gweithio:

I roi syniad i chi o sut mae hyn yn gweithio dyma rai enghreifftiau o sut y cymhwysir yr egwyddorion isod:

1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i fwrw eu pleidlais heb ddylanwad neu bwysau gormodol.

Ni chaiff ymgeiswyr sefyll a gwylio myfyrwyr pan fyddant yn pleidleisio gan y byddai’r myfyriwr o dan bwysau i bleidleisio dros yr ymgeisydd penodol hwnnw. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y dylent gamu i ffwrdd o fyfyriwr ar ôl iddynt ddechrau'r broses bleidleisio. Er bod hawl dosbarthu taflenni a danteithion i sicrhau fod myfyrwyr yn eich cofio ac yn gwrando arnoch chi, nid oes hawl i chi gynnig rhoi gwobr (losin neu rywbeth arall) i fyfyrwyr eu cael ar ôl iddynt bleidleisio drosoch chi, gan y byddai hyn yn cael ei ystyried fel dylanwad gormodol.

2) Rhaid i ymgeiswyr ufuddhau polisïau cyfraith, undeb a phrifysgol.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi fel ymgeisydd a'ch tîm ymgyrchu, fel bob amser, lynu wrth y gyfraith, rheoliadau'r Brifysgol (megis eu cod ymddygiad, rheoliadau iechyd a diogelwch, gweithdrefn cyfle cyfartal, cod aflonyddu, difrod i eiddo'r brifysgol, a defnydd o e-bost ac ati) a pholisi'r Undeb (megis ein polisi Dim Goddefgarwch, Rheoliadau Etholiadau ac ati). Gall torri'r polisïau hyn arwain at ddisgyblu a allai yn ei dro effeithio ar eich statws myfyriwr a'ch aelodaeth Undeb, yn ogystal ag effeithio ar eich statws fel ymgeisydd yn yr etholiad.

3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain ac felly, dylent osgoi ymyrryd ag ymgyrchu eraill

Golyga hyn y disgwylir i ymgeiswyr i ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain a pheidio â gwneud unrhyw beth y gall ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill. Er enghraifft: mae difwyno cyhoeddusrwydd ymgeiswyr eraill a heclo ymgeiswyr eraill ymysg y gweithredoedd y byddai'n cael eu hystyried yn doriad o amodau'r egwyddor hon. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr o hyd yn rhydd i drafod rinweddau ymgeiswyr eraill a ni fydd y fath hyn o drafodaeth yn cael ei hystyried yn doriad o amodau'r egwyddor hon.

4) Mae'n rhaid i eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ymgyrch ymgeisydd fod o fewn y lwfans a roddir yn unol â rheoliadau ariannol etholiad yr undeb (gweler isod).

## Rheoliadau Ariannol Etholiad

Ni ddylai arian fod yn rhwystr i unrhyw fyfyriwr sy'n dymuno rhedeg yn yr etholiadau. Dyma pam y mae'r Undeb yn darparu lwfans ymgyrchu i bob ymgeisydd a hefyd yn cyfyngu ar wariant ymgeisydd i'r swm a osodwyd.

Bydd ymgeiswyr sy'n ymgeisio yn yr etholiad hwn yn cael lwfans o £30

1) Mae'r lwfans hwn i'w wario ar gostau sy'n gysylltiedig â'ch ymgyrch. Ni allwch wario mwy na'r swm hwn ar eich gweithgarwch ymgyrchu ac adnoddau.

2) I hyrwyddo dulliau cynaliadwy o ymgyrchu dim ond **uchafswm o £15.00** o'r lwfans hwn y gellir ei wario ar ddeunyddiau wedi'u printio. Am unrhyw ddeunyddiau wedi'u printio, codir o leiaf 6c am bob ochr o A4 du a gwyn, ac 20c am bob ochr A4 lliw. Lle mae gwir gost argraffu yn uwch na'r isafswm a osodwyd, bydd yr ymgeiswyr yn talu'r swm uwch fel y dangosir ar y dderbynneb.

3) Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno derbynebau ar gyfer eu holl wariant ar yr ymgyrch cyn cyfarfod terfynol yr ymgeiswyr ynghyd â ffurflen treuliau.

4) Lle nad yw'n bosibl cael derbynneb am eitem, rhaid i ymgeiswyr gytuno ar werth marchnadol gyda'r tîm etholiadau cyn ei ddefnyddio. Bydd y swm hwn wedyn yn cyfrif tuag at gyfanswm eu gwariant etholiadau.

5) Diffinnir gwariant ymgyrchu fel 'unrhyw wariant a gyflawnir gyda'r diben o hyrwyddo ymgyrch etholiadol ymgeisydd'. Yr unig eithriadau yw gwisgoedd/dillad a nwyddau traul (Gweler y canllaw ar y dudalen nesaf).

6) Os ydych yn ansicr a ddylid neu na ddylid cyfrif eitem fel gwariant, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cael eglurder gan y tîm etholiadau cyn defnyddio unrhyw ddeunyddiau. Dylid cael eglurder yn ysgrifenedig drwy e-bost.

7) Ni all ymgeiswyr rannu costau cynhyrchu na defnydd o asedau yn eu hymgyrch. Lle bynnag y defnyddiwyd eitem i gefnogi ymgyrch ymgeiswyr, bydd yr ymgeisydd unigol yn atebol i ddidynnu'r swm llawn o'i wariant waeth beth fo cyfanswm yr ymgeiswyr sy'n elwa. H.Y. gyda grŵp o ymgeiswyr sy'n ymgyrchu gyda'i gilydd ac yn hyrwyddo ei gilydd, mae'n ofynnol iddynt rhoi cyfrif yn unigol am werth llawn unrhyw adnoddau a ddefnyddir yn eu hymgyrch.

Nid yw'r rhestr isod yn cynnwys popeth.

| |
|---|
| **Nwyddau traul ac eitemau nad ydynt yn benodol i ymgyrch** (ni ddylid eu cyfrif.)<br><br>Rhesymeg: Mae'r rhain i gyd yn eitemau y gallwn yn rhesymol ddisgwyl i ymgeiswyr fod yn berchen arnynt cyn eu penderfyniad i sefyll mewn etholiadau undeb. Mae hyn yn golygu nad hyrwyddo ymgyrchu yw eu prif swyddogaeth ac felly nid oes rhaid eu cyfrif. |
| Paent, beiros, a deunyddiau crefft<br><br>Hen gardbord, cynfasau, ffabrig neu ddeunyddiau tebyg<br><br>Tâp selo, pinnau, tac glas, glud, llinyn neu ddeunyddiau gosod eraill |
| Anifeiliaid anwes |

| |
|---|
| Offerynnau Cerddorol |
| Costau car a chludiant |
| Gwisgoedd |
| Dillad (ac eithrio dillad a gynhyrchir yn broffesiynol at ddiben hyrwyddo eich etholiad yn bennaf). |

## Torri Ymddygiad

Ar ôl cael gwybod am dorri ymddygiad, bydd ymgeiswyr yn cael eu hadrodd i'r tîm etholiadau a fydd yn cynnal ymchwiliad ac yn gosod sancsiynau os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi torri amodau. Mae gan y Swyddog Etholiad neu'r Dirprwy Swyddog Etholiad yr hawl i gosbi a hyd yn oed gwahardd ymgeisydd o'r broses etholiad os maent yn gweld hynny'n briodol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

O bryd i'w gilydd gall y tîm etholiadau, gan gynnwys y Swyddog Etholiadau neu'r Dirprwy Swyddog Etholiadau, gyhoeddi canllawiau etholiadol pellach. Gall y canllawiau gwmpasu elfennau o ymddygiad etholiad a dylent fod mor orfodadwy â'r rheoliadau yma. Bydd unrhyw ganllawiau o'r fath yn cael eu hanfon ati ymgeiswyr trwy e-bost.

## Sut i Wneud Cwyn

Rhaid i bob cwyn gael ei dderbyn o fewn 24 awr ar ôl y digwyddiad a rhaid iddynt gyrraedd y tîm democratiaeth yn ysgrifenedig erbyn diwedd y pleidleisio.

Gwneir cwynion drwy e-bostio elections@caerdydd.ac.uk ac mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol;


- Manylion y digwyddiad (pryd a ble y digwyddodd ac a oedd unrhyw dystion)
- Tystiolaeth
- Pa Reoliad sydd wedi'i dorri
- Beth yr ydych yn gofyn inni ei wneud ynghylch hyn.

Bydd y Swyddog Etholiadau yn adolygu ac yn dyfarnu'r holl gwynion cyn cychwyn y

Cyfrif.

## Asesu Cwynion

Mae'r Pwyllgor Etholiadau yn asesu'r holl gwynion ar sail unigol yn erbyn fformiwla gweddol safonol. Drwy ofyn cyfres o gwestiynau, mae'r pwyllgor etholiadau yn sicrhau eu bod yn trin pob ymgeisydd yn gyfartal.




## Hygyrchedd

Mae'r tîm etholiadau yn anelu i wneud y broses etholiadau mor hygyrch â phosibl. Os oes unrhyw anghenion hygyrchedd yr hoffech wneud y tîm etholiadau yn ymwybodol ohonynt, neu y byddai angen caniatáu eithriadau ar eu cyfer, anfonwch e-bost at y tîm etholiadau drwy [elections@caerdydd.ac.uk](mailto:elections@caerdydd.ac.uk) cyn gynted â phosibl.

## Dyddiadau allweddol

| Digwyddiad Allweddol | Dyddiad |
|---|---|
| **Enwebiadau’n Agor** | Dydd Llun 12fed Rhagfyr, 1yh |
| **Enwebiadau’n Cau** | Dydd Llun 6ed Chwefror, 4yh |
| **Wythnos Datblygu Ymgeiswyr** | Wythnos sy’n dechrau ddydd Llun 6ed Chwefror 2023 |
| **Dyddiad Cau Cyflwyno Llun** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh |
| **Dyddiad Cau Maniffesto Testun Plaen** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh |
| **Dyddiad Cau Maniffesto Fideo** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh |
| **Dyddiad Cau Geiriau Ychwanegol i'w Cyfieithu** | Dydd Llun 13eg Chwefror, 4yh |
| **Cyfieithiadau i’w Dychwelwyd i Ymgeiswyr** | Erbyn dydd Llun 20fed Chwefror, 4yh |
| **Dyddiad Cau Maniffesto Poster** | Dydd Gwener 24ain Chwefror, 4yh |
| **Pleidleisio'n Agor** | Dydd Llun 6ed Mawrth,10yb |
| **Pleidleisio'n Cau** | Dydd Gwener 10fed Mawrth, 4yh |
| **Canlyniadau** | Dydd Sadwrn 11eg Mawrth,1yh |